Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon – Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (Llais)

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4603A2024



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Archwilio Cymru na, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Perthnasedd y datganiadau ariannol | 7 |
| Cydymffurfio moesegol | 8 |
| Barn archwilio arfaethedig | 9 |
| Materion a gododd yn ystod yr archwiliad | 10 |
| Argymhellion | 12 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Barn archwilio arfaethedig | 13 |
| Atodiad 2 – Llythyr sylwadau | 17 |
| Atodiad 3 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed | 20 |
| Atodiad 4 - Argymhellion | 22 |
| Ansawdd archwilio | 31 |
| Eich cefnogi chi | 32 |

# Cyflwyniad

Rwyf bellach wedi cwblhau fy archwiliad i raddau helaeth yn unol â'm Cynllun Archwilio Manwl 2024 dyddiedig Gorffennaf 2024.

Mae'r Adroddiad hwn ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyllid.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'ch swyddogion am eu cymorth wrth gynnal yr archwiliad hwn.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Cipolwg ar eich archwiliad

**Barnau archwilio**

Rydym yn cynnig rhoi barn ddiamod ar y cyfrifon.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi dan yr adrannau eraill o'm hadroddiad, h.y. y rhai sy'n ymwneud â busnes gweithredol; gwybodaeth arall; materion eraill; neu faterion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad.

**Materion arwyddocaol**

Ceir un camddatganiad heb ei gywiro yn y cyfrifon â gwerth o £55,559.

Fe wnaethom adnabod un mater arwyddocaol:

- Nid yw tystiolaeth archwilio ategol wastad yn ddigonol

# Perthnasedd datganiadau ariannol

## Perthnasedd £143,000

Fy nod yw adnabod a chywiro camddatganiadau perthnasol, h.y. y rhai a fyddai fel arall yn gallu achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- Gwariant gros yn 2023-24 o £7.17 miliwn
- Canran perthnasedd o 2%

Rwy'n cymhwyso'r ganran perthnasedd i wariant gros i gyfrifo perthnasedd.

Byddaf yn adrodd wrthych ar unrhyw gamddatganiadau uwchlaw £7,000, a gyfrifir fel 5% o berthnasedd (sef y 'lefel ddibwys').

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Ceir rhai meysydd yn y cyfrifon a allai fod o fwy o bwysigrwydd i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn pennu terfynau perthnasedd is ar gyfer y rhain fel a ganlyn:

- Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol – band cydnabyddiaeth ariannol £5,000, datgeliadau pensiwn £1,000
- Datgeliadau partïon cysylltiedig – buddiannau personol £1,000

# Cydymffurfio moesegol

**Cydymffurfio â safonau moesegol**

Rydym ni'n credu:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol inni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- na pheryglwyd ein gwrthrychedd; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

# Barn archwilio arfaethedig

## Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 1.**

## Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau lle'r ydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Caiff peth o'r wybodaeth hon ei nodi gan safonau archwilio fel gwybodaeth sy'n angenrheidiol; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

# Materion a gododd yn ystod yr archwiliad

**Camddatganiadau**

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifyddu.

## Camddatganiadau nas cywirwyd

Rydym yn nodi isod gamddatganiad a adnabuwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi cael ei drafod gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb ei gywiro.

Adnabu ein gwaith profi samplau groniad am £55,559 a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaeth yn 2024-25, ac na ddylai felly fod wedi cael ei ddosbarthu fel gwariant yn 2023-24. Fe wnaethom estyn ein profion ar samplau o groniadau gyda ffocws penodol ar dorbwyntiau gwariant ac ni wnaethom adnabod unrhyw wallau pellach. Rydym wedi ein hargyhoeddi nad yw gweddill poblogaeth y croniadau'n cynnwys camddatganiad perthnasol.

Mae'r rheolwyr wedi penderfynu peidio â chywiro'r cyfrifon ar gyfer y gwall hwn. Nid yw'r gwerth yn berthnasol. Mae'r rheswm hwn dros beidio â'u cywiro wedi cael ei gynnwys yn y Llythyr Sylwadau yn **Atodiad 2**.

## Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, fe wnaethom adnabod camddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw chi yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi am y broses adrodd ariannol. Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 3**.

Fe wnaethom hefyd argymell ychwanegu, diwygio a dileu datgeliadau yn y cyfrifon i sicrhau eu bod yn gyflawn, yn eglur, yn gywir ac yn gyson drwy'r cyfrifon i gyd, ac i gydymffurfio ag arfer gorau fel a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol. Nid ydym wedi nodi'r rhain i gyd ar wahân, gan nad ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, ond rydym wedi cynnwys y newidiadau mwy arwyddocaol yn **Atodiad 3**.

## Materion arwyddocaol eraill

Yn ychwanegol at gamddatganiadau a adnabuwyd yn ystod yr archwiliad rydym hefyd yn adrodd wrthych ar faterion arwyddocaol eraill.

Fe adnabuwyd y mater arwyddocaol canlynol yn ystod yr archwiliad.

**Arddangosyn 1: materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad**

| | |
|---|---|
| **Nid yw tystiolaeth archwilio ategol wastad yn ddigonol** | Adnabu ein harchwiliad nad oedd tystiolaeth ategol ar gyfer naratif a gwybodaeth ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon wastad yn ddigonol.<br>Er enghraifft, nid oedd papurau gwaith yn gyson â'r ffigwr a oedd yn destun ymholiad, roedd diffyg tystiolaeth trydydd parti wedi'i darparu i ategu gwariant, ac nid oedd tystiolaeth o adolygu ansawdd gwybodaeth a ddarparwyd.<br>Cododd argymhelliad tebyg o'n harchwiliad o gyfrifon 2022-23.<br>Hefyd, fe brofom ni oedi cyn cael papurau gwaith/tystiolaeth archwilio a ddylai fod wedi bod ar gael yn rhwydd ar gais, yn gynharach yn y cylch archwilio, er enghraifft datganiadau o fuddiant, slipiau cyflog a chontractau cyflogaeth uwch swyddogion ac aelodau, dogfennaeth taliadau ymadael, gwybodaeth ategol ar gyfer asedau anniriaethol.<br>Rydym yn derbyn bod 2023-24 yn gromlin ddysgu serth i swyddogion wrth i Llais ddod yn llwyr weithredol ac mae staff sy'n newydd yn eu swyddi wedi bod o gymorth i ymateb i'n ceisiadau archwilio mewn modd amserol yn ystod yr archwiliad terfynol.<br>Mae'n anorfod bod yr uchod wedi arwain at aneffeithlonrwydd archwilio ac at ysgwyddo ffioedd archwilio ychwanegol.<br>Rydym wedi gwneud argymhelliad manwl yn **Atodiad 4** i'r rheolwyr ymdrin ag ef yn 2024-25. |

# Argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion yn ystod yr archwiliad, a nodir yn **Atodiad 4** ynghyd ag ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle nad yw unrhyw argymhellion yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, byddwn yn adrodd wrthych fel rhan o'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon y flwyddyn nesaf.

# Atodiad 1

## Adroddiad archwilio arfaethedig

**Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd**

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (a adwaenir fel Llais) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Llais ar 31 Mawrth 2024 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y barnau**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes

gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Llais ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a gaiff eu harchwilio a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;

- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Llais i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Llais yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Iechyd a Gofal (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Llais, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Llais sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi dyddlyfrau anarferol a gwrthwneud rheolaethau gan reolwyr;

- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Llais, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Llais yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llais; a hefyd
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a adnabuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llais, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
[Dyddiad]

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

# Atodiad 2

## Llythyr sylwadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

[Dyddiad]

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2023-24

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gaiff ei harchwilio) Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (a adwaenir fel Llais) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch, eu paratoi'n briodol a rheoleidd-dra incwm a gwariant.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau'r rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i mi:
  - ymlynu wrth y cyfarwyddiadau ynghylch cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgeliadau a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol ar sail gyson;
  - llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
  - datgan pa un a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi cael eu dilyn a'u datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt; a hefyd
  - eu paratoi ar sail busnes gweithredol ar y rhagdybiaeth y bydd gwasanaethau Llais yn parhau i fod yn weithredol;
- sicrhau rheoleidd-dra unrhyw wariant a thrafodion eraill a ysgwyddwyd; a
- dylunio, gweithredu a chynnal rheolaeth fewnol i atal a chanfod gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Llais ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt; a hefyd
- ein gwybodaeth am yr holl achosion posibl a gwirioneddol o drafodion afreolaidd.

## Sylwadau ynghylch y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae un camddatganiad nas cywirwyd o £55,559 wedi cael ei adnabod sy'n dal i fod heb ei gywiro yn y cyfrifon. Rydym yn cytuno â phenderfyniad y rheolwyr i beidio â gwneud addasiad ar sail amherthnasedd.

## Sylwadau gan y Bwrdd

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar XXXXXX.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom ni, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Alyson Thomas<br>Prif Weithredwr | Medwin Hughes<br>Cadeirydd Bwrdd Llais |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad 3

## Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, fe adnabuom y camddatganiad canlynol sydd wedi cael ei gywiro gan y rheolwyr, ond a ddylai gael ei ddwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

**Arddangosyn 2: manylion y cywiriad a wnaed**

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £8,000 | Gostyngiad mewn rhent dan lesoedd gweithredu (Nodyn 3) sy'n effeithio ar gyfanswm gwariant gweithredu arall (Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr). | I gywiro cyfrif dwbl o ran y llog sy'n daladwy ar yr ased hawl defnyddio.<br>Roedd newid i'r datganiad o lifoedd arian parod yn ofynnol hefyd i dynnu'r llog allan o weithgareddau gweithredu a'i gynnwys yn yr adran gweithgareddau cyllido. |

Yn ystod ein harchwiliad, fe wnaethom argymell ychwanegu, diwygio a dileu datgeliadau yn y cyfrifon i sicrhau cyflawnder, eglurder, cywirdeb a chysondeb drwy'r cyfrifon i gyd, ac i gydymffurfio ag arfer gorau fel a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol. Nid ydym wedi nodi'r rhain i gyd ar wahân, gan nad ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, ond rydym wedi cynnwys y newidiadau mwyaf arwyddocaol yn **Arddangosyn 3**.

**Arddangosyn 3: crynodeb o newidiadau a wnaed i ddatgeliadau**

| Nodyn Datgelu | Natur y newid |
|---|---|
| **Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd** | Fe wnaed amryw bwyntiau naratif ac eglurhaol, gan gynnwys:<br>- eglurhau'r adran adolygu cyllid;<br>- mewnosod datgeliadau ynglŷn â chanrannau trosiant staff; a<br>- mewnosod datganiad yn cadarnhau nad ysgwyddwyd unrhyw iawndal am golli swydd yn ystod y flwyddyn. |

| Nodyn Datgelu | Natur y newid |
|---|---|
| **Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol** | Fe wnaed amryw bwyntiau naratif ac eglurhau, gan gynnwys:<br>- ei gwneud yn glir pa adrannau o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a gaiff eu harchwilio;<br>- ychwanegu cymaryddion 2022-23 lle'r oedd yn berthnasol;<br>- datgelu dyddiadau penodi a chyflogau cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer y ddau gyfarwyddwr strategol;<br>- cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer y Cadeirydd;<br>- newid i ddatgelu'r band cyflog cywir ar gyfer un cyfarwyddwr; a<br>- mewnosod tabl yn crynhoi cost pecynnau ymadael a ysgwyddwyd. |
| **Nodyn 1.14** | Mewnosod polisi cyfrifyddu ar gyfer safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nas mabwysiadwyd eto. |
| **Nodyn 4** | Mewnosod datgeliadau pellach sy'n ofynnol i gydymffurfio ag IFRS16 Lesoedd, sy'n ymwneud â dadansoddi perthnasedd rhwymedigaethau lesoedd, a symiau a gydnabyddir o fewn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o Lifoedd Arian Parod. |
| **Nodyn 5** | Trosglwyddiad i mewn ar gyfer eiddo, cyfarpar ac offer i gael ei ddangos fel ffigwr gros (h.y. cost a dibrisiant cronnus) yn ôl y sefyllfa ar 1 Ebrill 2023. |
| **Nodyn 11** | Mewnosod nodyn ar offerynnau ariannol. |
| **Amryw nodiadau datgelu** | Amryw newidiadau i naratif a datgeliadau, nad ydynt wedi'u nodi ar wahân yn y tabl hwn, am nad ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. |

# Atodiad 4

## Argymhellion

Rydym yn nodi isod yr argymhellion o’n harchwiliad ynghyd ag ymateb eich rheolwyr iddynt.

**Arddangosyn 4: mater yn codi 1**

| **Mater yn codi 1** – Mae gwelliannau’n ofynnol i’r dystiolaeth archwilio a ddarperir i ategu’r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | |
|---|---|
| Canfyddiadau | Adnabu ein harchwiliad nad oedd tystiolaeth ategol ar gyfer naratif a gwybodaeth ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon wastad yn ddigonol.<br>Er enghraifft, nid oedd papurau gwaith yn gyson â’r ffigwr a oedd yn destun ymholiad, roedd diffyg tystiolaeth trydydd parti wedi’i darparu i ategu gwariant, ac nid oedd tystiolaeth o adolygu ansawdd gwybodaeth a ddarparwyd.<br>Cododd argymhelliad tebyg o’n harchwiliad o gyfrifon 2022-23.<br>Rydym yn derbyn bod 2023-24 yn gromlin ddysgu serth i swyddogion wrth i Llais ddod yn llwyr weithredol ac mae staff sy’n newydd yn eu swyddi wedi bod o gymorth i ymateb i’n ceisiadau archwilio mewn modd amserol yn ystod yr archwiliad terfynol. |
| Blaenoriaeth | Uchel |
| Argymhelliad | Gan ddefnyddio ein profiad o eleni, byddwn yn diwygio’r rhestr o bapurau y mae’n ofynnol eu darparu ar gyfer pob cam archwilio yn 2024-25.<br>Bydd angen i swyddogion Llais sicrhau bod papurau gwaith priodol a thystiolaeth ategol briodol yn cael eu darparu cyn ein bod yn dechrau ein gwaith archwilio.<br>Bydd angen cysoni’r dystiolaeth â’r ffigyrau yn y datganiadau ariannol a’r nodiadau, a bydd angen iddi fod yn dystiolaeth trydydd parti o ran ei natur lle y bo’n briodol.<br>Rydym yn cynnig bod ansawdd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a’r papurau gwaith yn cael ei adolygu gan uwch swyddog cyn eu cyflwyno i’w harchwilio. |

| | |
|---|---|
| **Mater yn codi 1** – Mae gwelliannau'n ofynnol i'r dystiolaeth archwilio a ddarperir i ategu'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | |
| | Mae'r argymhellion hyn yn berthnasol hefyd i dystiolaeth archwilio a ddarparwyd mewn ymateb i waith profi samplau wrth archwilio ac ymholiadau ad hoc wrth i'r archwiliad fynd rhagddo. |
| Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith | Bydd ei roi ar waith yn gwella ansawdd y dystiolaeth a ddarperir at ddibenion archwilio a fydd yn ei dro'n cynyddu effeithlonrwydd gweithdrefnau archwilio ac yn lleihau'r baich archwilio ar swyddogion. |
| Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Bydd ymarfer gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r archwiliad. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyllid fydd yn arwain hwn, a fydd yn ymgorffori'r argymhellion uchod. |
| Dyddiad rhoi ar waith | 31 Mawrth 2025 |

**Arddangosyn 5: mater yn codi 2**

| | |
|---|---|
| **Mater yn codi 2** – dylai'r rheolwyr gryfhau'r gweithdrefnau cau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn i ymgorffori adolygiad o wariant sylweddol cyn/ar ôl diwedd y flwyddyn i sicrhau ei fod wedi cael ei ddosbarthu o fewn y flwyddyn ariannol gywir. | |
| Canfyddiadau | Adnabu ein gwaith profi samplau groniad am £55,559 a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaeth yn 2024-25, na ddylai felly fod wedi cael ei ddosbarthu fel gwariant yn 2023-24.<br>Mae hwn yn dal i fod yn gamddatganiad heb ei addasu yng nghyfrifon 2023-24, fel a nodwyd uchod.<br>Arweiniodd gwerth y gwall at waith pellach sylweddol (sampl wreiddiol o 3, a sampl estynedig o 7) i brofi croniadau diwedd blwyddyn gyda ffocws ar dorbwynt gwariant i fod wedi ein hargyhoeddi nad oedd |

| | |
|---|---|
| **Mater yn codi 2** – dylai'r rheolwyr gryfhau'r gweithdrefnau cau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn i ymgorffori adolygiad o wariant sylweddol cyn/ar ôl diwedd y flwyddyn i sicrhau ei fod wedi cael ei ddosbarthu o fewn y flwyddyn ariannol gywir. | |
| | gweddill y boblogaeth croniadau nas profwyd yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol. |
| Blaenoriaeth | Uchel |
| Argymhelliad | Rydym yn argymell bod gweithdrefnau cau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys adolygiad o wariant sylweddol cyn/ar ôl diwedd y flwyddyn i sicrhau ei fod wedi cael ei ddosbarthu o fewn y flwyddyn ariannol gywir. Bydd hyn yn lleihau'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. |
| Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith | Sicrhau bod gwariant yn cael ei ddosbarthu o fewn y flwyddyn ariannol gywir a'i fod yn cydymffurfio â safonau adrodd ariannol.<br>Sicrhau bod perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn yn berthnasol gywir. |
| Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Cytuno.<br>Bydd ymarfer gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r archwiliad. Bydd hwn yn cynnwys adolygu dogfennau, llif gwybodaeth a chynllunio ar gyfer archwiliad, i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu hymgorffori yn archwiliad y flwyddyn nesaf. |
| Dyddiad rhoi ar waith | 31 Mawrth 2025 |

**Arddangosyn 6: mater yn codi 3**

| **Mater yn codi 3** – dylai'r rheolwyr adolygu'r lesoedd eiddo a drosglwyddwyd i mewn i Llais ar gyfer addasrwydd parhaus ac adolygu'r sail ar gyfer amcangyfrif rhwymedigaethau dadfeiliadau yn y dyfodol | |
|---|---|
| Canfyddiadau | 1. Fe etifeddodd Llais bortffolio o lesoedd eiddo gan BIA Powys, y mae rhai ohonynt wedi dod i ben ac yn parhau ar sail dreigl. O safbwynt cyfrifyddu, nid yw'r lesoedd hyn sydd wedi dod i ben o fewn cwmpas IFRS16 Lesoedd ac felly nid yw'r hawl defnyddio'n cael ei chynnwys yn y cyfrifon. Hefyd, ceir cwestiwn pa un a yw'r lesoedd hyn yn gost-effeithiol.<br>2. Adnabuom fod y ddarpariaeth dadfeiliadau wedi cael ei seilio ar gyfradd y fetr sgwâr fel a gynghorwyd gan y prisiwr ar ran Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, pan drosglwyddwyd y lesoedd eiddo o BIA Powys. Daethom i'r casgliad bod hwn yn amcangyfrif rhesymol o'r ddarpariaeth a oedd yn ofynnol ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, gallai realeiddio costau dadfeiliad yn 2024-25 pan adawyd y safleoedd ddynodi sail fwy priodol ar gyfer amcangyfrif rhwymedigaethau presennol. |
| Blaenoriaeth | Canolig |
| Argymhelliad | 1. Rydym yn argymell bod Llais yn cynnal adolygiad o'i lesoedd eiddo ar gyfer addasrwydd a chost-effeithiolrwydd parhaus. Byddir yn rhoi cyfrif am unrhyw lesoedd newydd yn unol ag IFRS 16.<br>2. Rydym yn argymell bod costau gwaith dadfeiliadau yn 2024-25 yn cael eu cymharu â'r amcangyfrif ar sail cyfradd y fetr sgwâr a gymhwyswyd i lesoedd eraill i bennu'r sail fwyaf priodol ar gyfer amcangyfrif rhwymedigaethau yn y dyfodol i'w cynnwys mewn darpariaethau, a bod hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol wedi hynny. |

| **Mater yn codi 3** – dylai'r rheolwyr adolygu'r lesoedd eiddo a drosglwyddwyd i mewn i Llais ar gyfer addasrwydd parhaus ac adolygu'r sail ar gyfer amcangyfrif rhwymedigaethau dadfeiliadau yn y dyfodol | |
|---|---|
| Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith | 1. Sicrhau priodoldeb lesoedd eiddo Llais a'u costau parhaus.<br>2. Sicrhau dull priodol ar gyfer amcangyfrif rhwymedigaethau dadfeiliadau yn y dyfodol a chydnabod y costau hynny yn y cyfrifon. |
| Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Cytuno.<br>Fe etifeddodd Llais unedau eiddo pan y'i sefydlwyd ac fe wnaed penderfyniad bwriadol i beidio ag adnewyddu rhai o'r lesoedd presennol gan nad ystyrid eu bod yn addas ar gyfer y diben nac yn fforddiadwy o ystyried yr heriau o ran cyllid yn y sector cyhoeddus.<br>Yn ystod 2023/24, fe ddechreuodd Llais ei adolygiad o'r strategaeth Ystadau, y gellir dangos tystiolaeth ohono trwy ymgysylltu ffurfiol â'r Bwrdd. Fe arweiniodd yr adolygiad hwn at ddull seiliedig-ar-risgiau o ailnegodi rhai lesoedd a/neu adleoli swyddfeydd.<br>Mae'r strategaeth hon wedi cael ei chyflawni trwy gydol 2024/25 a bydd yn parhau yn 2025/26. |
| Dyddiad rhoi ar waith | Yn barhaus |

**Arddangosyn 7: mater yn codi 4**

| **Mater yn codi 4** – Dylai'r rheolwyr ystyried dileu addasiadau â llaw wrth fapio costau o'r balans prawf i'r cyfrifon a'r nodiadau | |
|---|---|
| Canfyddiadau | Mae'r cyfriflyfr ariannol yn ymgorffori hierarchaeth o godau cyfrifon a ddefnyddir i gynhyrchu'r balans prawf. Fe adnabuom addasiadau â llaw a wnaeth |

| **Mater yn codi 4** – Dylai'r rheolwyr ystyried dileu addasiadau â llaw wrth fapio costau o'r balans prawf i'r cyfrifon a'r nodiadau | |
|---|---|
| | ailddosbarthu trafodion ar gyfer paratoi'r cyfrifon a'r nodiadau.<br>Arfer gorau yw mewnbynnu'r holl addasiadau trwy'r cyfriflyfr cyffredinol.<br>Yn ei dro, bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl defnyddio ein cymhwysiad dadansoddi data'n fwy effeithlon o ystyried ein bod yn cael data cyfriflyfrau'n annibynnol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (sy'n lletya cyfriflyfr cyffredinol Llais). |
| Blaenoriaeth | Canolig |
| Argymhelliad | Dylai'r rheolwyr ystyried dileu addasiadau â llaw i ailddosbarthu trafodion a defnyddio dyddlyfrau system os yw'n ofynnol.<br>Rydym hefyd yn gofyn, fel rhan o bapurau gwaith 2024-25, bod cysoniad yn cael ei ddarparu i ategu ffigyrau yn y cyfrifon na ellir eu holrhain yn uniongyrchol i'r balans prawf/cyfriflyfr cyffredinol. |
| Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith | Cyd-fynd ag arfer gorau a gwella effeithlonrwydd gweithdrefnau archwilio. |
| Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Cytuno<br>Oracle, a letyir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yw'r system cyfrifyddu ariannol a ddefnyddir gan Llais. Cyfyngir ar drefn gyfredol y system, ac mae'n cael ei llywio, gan anghenion byrddau iechyd.<br>Ers recriwtio Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyllid newydd yn Llais, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ysgogi gwelliannau i brosesau a threfniadau adrodd, gan gynnwys strwythurau codio a all gyd-fynd ag |

| | |
|---|---|
| **Mater yn codi 4** – Dylai'r rheolwyr ystyried dileu addasiadau â llaw wrth fapio costau o'r balans prawf i'r cyfrifon a'r nodiadau | |
| | anghenion busnes Llais. Rhagwelir y bydd hyn yn dileu'r gofyniad cyfredol am addasiadau â llaw. |
| Dyddiad rhoi ar waith | 31 Mawrth 2025 |

**Arddangosyn 8: mater yn codi 5**

| | |
|---|---|
| **Mater yn codi 5** – Dylai Llais ystyried cryfhau trefniadau llywodraethu a gweinyddu TG | |
| Canfyddiadau | Nid oedd ein harchwilydd TG yn gallu adnabod a oes Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) yn ei le gyda thîm galluogi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer dyletswyddau gweinyddu systemau y mae'n eu cyflawni ar ran Llais ar gyfer Oracle FMS ac Oracle ESR.<br>Nid yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am reoli mynediad at y cymwysiadau ariannol perthnasol.<br>Fe wnaethom hefyd adnabod nad oes adolygiad rheolaidd o ddefnyddwyr â mynediad at y ddwy system i ystyried a yw eu mynediad parhaus a'u lefelau mynediad yn briodol. |
| Blaenoriaeth | Canolig |
| Argymhelliad | Rydym yn argymell bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi'i lofnodi'n cael ei roi ar waith sy'n nodi'n glir beth yw cyfrifoldebau'r ddau sefydliad mewn perthynas â gweinyddu systemau.<br>Bod adolygiad chwarterol o hawliau mynediad a breintiau'n cael ei gynnal ar gyfer defnyddwyr Oracle FMS ac Oracle ESR. |
| Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith | Sicrhau bod cyfrifoldebau a threfniadau'n glir a chyfyngu ar y risg o fynediad anawdurdodedig at/ defnydd anawdurdodedig o systemau. |

| **Mater yn codi 5** – Dylai Llais ystyried cryfhau trefniadau llywodraethu a gweinyddu TG | |
|---|---|
| Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Cytuno.<br>Cafodd Cytundeb Lefel Gwasanaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei lofnodi gan Llais ar 14 Tachwedd 2024 a'i lofnodi gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar 15 Tachwedd 2024.<br>Mae perthnasoedd yn datblygu â'r Cydwasanaethau, ers recriwtio Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyllid i gynorthwyo gyda gwelliannau i reoli mynediad, trwyddedau ac ati.<br>Bydd argymhellion archwilio'n cael eu hymgorffori mewn adolygiadau gan y tîm cyllid gan gynnal cyswllt â'r tîm TG. |
| Dyddiad rhoi ar waith | Tachwedd 2024 |

**Arddangosyn 9: mater yn codi 6**

| **Mater yn codi 6** – Mae angen i weithdrefnau ar gyfer datgan buddiannau aelodau ac uwch gyflogeion gael eu gwella ymhellach | |
|---|---|
| Canfyddiadau | Yn 2022-23 fe wnaethom argymell:<br>- bod y ffurflenni datgan buddiannau'n cael eu diweddaru i gynnwys ystyried/datgelu swyddi a ddelir gan briod/aelodau o'r teulu a allai ddylanwadu ar weithrediadau Llais; a<br>- bod yr ymarfer i goladu datganiadau o fuddiant yn cael ei gynnal yn flynyddol tuag at ddiwedd y flwyddyn, neu o leiaf y ceir cadarnhad ysgrifenedig gan bob aelod/uwch gyflogai bod y gofrestr buddiannau'n gywir ar 31 Mawrth. |

| | |
|---|---|
| **Mater yn codi 6** – Mae angen i weithdrefnau ar gyfer datgan buddiannau aelodau ac uwch gyflogeion gael eu gwella ymhellach | |
| | Yn 2023-24 rydym yn cydnabod y cynnydd gan y rheolwyr tuag at roi'r argymhellion hyn ar waith, er bod lle i wella ymhellach. |
| Blaenoriaeth | Isel |
| Argymhelliad | Rydym yn argymell:<br>- bod y rheolwyr yn darparu canllawiau pellach ar gyfer aelodau a swyddogion o ran pa fuddiannau y mae'n ofynnol eu datgelu a'r hyn y mae rheolaeth arwyddocaol yn ei olygu yn y cyd-destun hwn ar gyfer cwblhau'r ffurflen yn briodol; a<br>- bod y rheolwyr yn atgoffa aelodau a swyddogion am bwysigrwydd datganiadau wedi'u llofnodi ynghyd â'r dyddiad yn flynyddol ar 31 Mawrth. |
| Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith | Bydd gweithdrefnau gwell yn lleihau'r risg o wrthdaro buddiannau nas adnabuwyd/nas datgelwyd a hefyd yn arwain at fonitro'r buddiannau hyn yn fwy effeithlon. |
| Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr | Do |
| Ymateb y rheolwyr | Fe wnaed datblygiadau i'r broses ar ddiwedd 2023/24. Cyflwynwyd ffurflen newydd, ac fe ddiweddarwyd datganiadau pob aelod o'r bwrdd.<br>Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i fireinio'r dull yn ystod 2024/2025 gyda chanllawiau ychwanegol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer aelodau'r bwrdd a staff. Bydd y rhain yn cynnwys y gofyniad penodol i ddiweddaru a chadarnhau'r sefyllfa gyda datganiadau unigol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. |
| Dyddiad rhoi ar waith | 31 Mawrth 2025 |

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan yr Adran Sicrhau Ansawdd, ac mae ein cadeirydd yn gweithredu fel dolen gyswllt ar gyfer ein Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023.



### Ein Pobl

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



### Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

# Eich cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu ystod o adnoddau i roi cymorth gyda gwaith i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i roi cymorth i'r cyrff hynny barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

## Ewch at ein gwefan i gael y canlynol:

| | |
|---|---|
|  | ein gwaith Arfer Da lle rydym yn rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli. |
|   | ein cylchlythyr sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da a digwyddiadau. |
|  | ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio a gwblhawyd mewn cyrff cyhoeddus. |
|  | gwybodaeth am ein blaenraglen waith archwilio perfformiad 2023-2026 a gaiff ei llunio gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n dadansoddiad darlun o wasanaethau cyhoeddus. |
|   | amryw offer data a ffeithluniau i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well gan gynnwys ystod o fewnwelediadau eraill i graffu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. |

Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 a hefyd Ein Strategaeth 2022-27.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.